# Adroddiad Etifeddiaeth

## Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Medi 2015

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**

**Mary Carter**

**Stuart Castledine**

**Yr Athro Monojit Chatterji**

**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price**, Clerc

**Dan Collier**, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6330
E-bost: **Taliadau@cynulliad.cymru**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... **2**

**Edrych yn ôl** .......... **4**

Egwyddorion .......... 4

Prif gerrig milltir .......... 5

**Gwersi a ddysgwyd: llywodraethu** .......... **7**

Gwneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth .......... 7

Materion Cydraddoldeb .......... 7

Rheoli y Risgiau .......... 8

Hunanwerthuso .......... 8

Dulliau o weithio .......... 8

Cyfnod Sefydlu .......... 8

**Gwersi a ddysgwyd: ymgysylltu** .......... **10**

Ymgysylltu â'r cyhoedd .......... 10

Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol allweddol .......... 10

**Edrych ymlaen** .......... **12**

Penderfyniadau Gohiriedig .......... 12

Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad  ar gyfer 2016-17 .......... 12

Cyfraddau costau swyddfa a lwfansau preswyl .......... 12

Cymorth Grŵp .......... 12

Camau gweithredu cydraddoldeb .......... 12

Cynllun Pensiwn Aelodau’r Cynulliad .......... 12

Polisïau a Gweithdrefnau .......... 13

Materion eraill ar gyfer Bwrdd 2015-20 .......... 13

# Cyflwyniad

Yn unol â'i ddeddfwriaeth sefydlu, daw cyfnod gweithredu'r Bwrdd Taliadau presennol i ben ym mis Medi 2015. Caiff Bwrdd newydd ei gyfansoddi i gymryd ei le.

Felly, mae hwn yn amser da i edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd gennym dros bum mlynedd gyntaf y Bwrdd, y gwersi a ddysgwyd, a gwneud rhai awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymgysylltu â'r Bwrdd ers ei sefydlu yn 2010, ac un o'n prif argymhellion yw bod angen cadw a meithrin y perthnasau a'r cysylltiadau a ddatblygwyd gennym.

Er mwyn i'r Bwrdd weithio'n effeithiol, mae'n hollbwysig y gall yr aelodau gael gafael ar wybodaeth a chymorth o safon uchel.  Mae angen iddo ystyried barn rhanddeiliaid, er y bydd y Bwrdd yn gwneud ei benderfyniadau annibynnol ei hun yn y pen draw.

Mae pum mlynedd gyntaf y Bwrdd wedi bod yn amser diddorol i fod yn rhan o sefydliad sydd wedi aeddfedu i chwarae mwy o rôl ym mywydau pobl Cymru. Mae fy nghydweithwyr a minnau wedi cyflawni ein gwaith ar adeg o gryn ddatblygiad a newid cyfansoddiadol, ac mae wedi bod yn heriol ac yn hynod ddiddorol. Hyderaf y bydd Cadeirydd nesaf y Bwrdd yn mwynhau'r rôl gymaint ag y gwnes i.



Sandy Blair CBE DL
Cadeirydd y Bwrdd Taliadau

Gorffennaf 2015

# Edrych yn ôl

## Egwyddorion

1. Nodir swyddogaethau'r Bwrdd yn adran 3 o'r Mesur, ac maent yn ymwneud â gwneud Penderfyniad ynghylch taliadau pob Aelod Cynulliad a thaliadau atodol i'r rhai sy'n cyflawni cyfrifoldebau ychwanegol. At hynny, mae'n ofynnol i'r Bwrdd benderfynu ynghylch system lwfansau Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth.

2. Mae'r Mesur hefyd yn nodi tri amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad. Dyma'r tri amcan:

– darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu'n deg gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni ac nad yw'n atal, am resymau ariannol, bobl â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;

– darparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad allu arfer eu swyddogaethau fel Aelodau Cynulliad; a

– gwneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

3. Wrth lunio'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, ymrwymodd y Bwrdd i'r egwyddorion a bennwyd ganddo yn 2010, a gyhoeddwyd yn ei adroddiad cyntaf, Addas i'r Diben. Dyma egwyddorion y Bwrdd:

– diben strategol - dylai'r Penderfyniad gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;

– yn iawn i Gymru - rhaid i benderfyniadau fod yn briodol o fewn cyd-destun enillion Cymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru; a

– gwerth am arian - dylai'r system o gymorth ariannol gynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr.

4. At hynny, mae'r Bwrdd yn ymrwymo i sicrhau bod y system o gymorth ariannol i Aelodau'n gadarn, yn glir ac yn dryloyw.

5. Aeth y Bwrdd ati i wneud gwaith ymchwil trylwyr, ymgynghori'n eang a chyhoeddi penderfyniadau ym mhob maes o ran tâl yr Aelodau ym mis Mai 2015 - flwyddyn cyn Etholiad Cyffredinol Cymru. Roedd hynny er mwyn sicrhau y bydd darpar ymgeiswyr mewn etholiadau, pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yng Nghymru yn gwybod ymhell ymlaen llaw am y trefniadau ariannol a fydd ar waith i Aelodau'r Cynulliad a etholir yn 2016.

# Prif gerrig milltir

**2011**

**Mawrth**
Addas i'r Diben: Cyhoeddodd y Bwrdd Addas i'r Diben a'i Benderfyniad fisoedd ar ôl iddo gael ei gyfansoddi, gan bennu fframwaith ar gyfer rheoli taliadau'n effeithiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**Gorffennaf**
Taliadau Swydd-ddeiliaid: Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o daliadau Swydd-ddeiliaid er mwyn datblygu system ar gyfer talu Swydd-ddeiliaid a oedd yn addas i'r diben, yn dryloyw ac yn gynaliadwy.

**2012**

**Medi**
Cynnal colocwiwm ar bensiynau: Er mwyn helpu i ddysgu barn y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol ar drefniadau pensiwn priodol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.

**2013**

**Gorffennaf**
Cyflwyno'r Gronfa Polisi ac Ymchwil: Cyflwynodd y Bwrdd Gronfa Polisi ac Ymchwil sy'n galluogi i'r Aelodau gomisiynu darnau o waith ymchwil o ffynonellau allanol.

**Medi**
Ymddiswyddodd Syr George Reid o rôl y Cadeirydd oherwydd salwch. Cymerodd Sandy Blair yr awenau. Dechrau'r Adolygiad o bob agwedd ar y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## 2014

### Ebrill
Agor ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.

### Gorffennaf
Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad: Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad eang o drefniadau a chyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Ar gyfer y Pumed Cynulliad, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno rôl uwch-gynghorydd newydd er mwyn gwella capasiti Aelodau'r Cynulliad.

Agor ail ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.

Agor ymgynghoriad ar gymorth i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad.

## 2015

### Mawrth
Agor ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

### Mai
Cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad: gwnaed hyn flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru i sicrhau bod ymgeiswyr a'r cyhoedd yn llawn ymwybodol o'r tâl a'r cymorth a fyddai ar gael i Aelodau yn y Pumed Cynulliad.

### Haf
Cynllun pensiwn newydd i Aelodau'r Cynulliad: Dechreuodd y gwaith cymhleth hwn ym mis Medi 2013. Mae'n sicrhau bod cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn cyd-fynd â deddfwriaeth newydd.

# Gwersi a ddysgwyd: llywodraethu

## Gwneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth

6. Ers ei sefydlu, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Er mwyn gwneud hynny, mae'r Bwrdd wedi dibynnu ar arweiniad mewnol gan staff y Comisiwn gan ategu'r arweiniad hwnnw, o bryd i'w gilydd, ag arbenigedd a gomisiynwyd yn allanol.

7. Er bod y gwaith allanol a gomisiynwyd wedi darparu rhywfaint o arweiniad hanfodol, mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai wella ei broses gomisiynu. Nododd y Bwrdd pa mor bwysig yw nid yn unig gosod canllawiau clir o'r cychwyn i ddarparwyr gwasanaethau allanol, ond hefyd cael cyfundrefn fonitro gaeth i sicrhau safon a fforddiadwyedd.

8. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar hefyd i'r gwasanaeth Cymorth Busnes i Aelodau, sy'n cydweithio â'r Aelodau o ddydd i ddydd gan gynnig ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth ymarferol o feysydd lle y mae'r Penderfyniad yn gweithio'n effeithiol a lle nad yw'n gweithio cystal. Mae llawer o'r newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad - yn enwedig y rhai llai a'r rhai technegol - yn deillio o adborth a roddwyd i'r Bwrdd gan y gwasanaeth Cymorth Busnes i Aelodau.

9. Mae annibyniaeth y Bwrdd yn hollbwysig. Mae'r Bwrdd yn fodlon ar y cydbwysedd y mae wedi llwyddo ei daro rhwng ei waith o wneud penderfyniadau annibynnol a'i ddibyniaeth ar staff y Comisiwn i reoli perthnasau ag Aelodau a staff cymorth - yn enwedig y staff hynny sy'n gweinyddu'r gwaith o weithredu Penderfyniadau'r Bwrdd.

## Materion Cydraddoldeb

10. Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad. Comisiynwyd Diverse Cymru i ddarparu sicrwydd cadarn i'r Bwrdd a chyngor ar sut yr aed i'r afael â materion cydraddoldeb yn yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae’r adroddiad ar y Penderfyniad yn cynnwys log o’r holl faterion cydraddoldeb.

11. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y gwaith hwn yn gosod meincnod i'w olynydd a chyrff eraill o'r fath. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy o hyd i sicrhau bod ystyried cydraddoldeb yn rhan brif ffrwd o holl bapurau a chyhoeddiadau'r Bwrdd yn y dyfodol.

12. Bydd angen i'r Bwrdd newydd fonitro'r broses o weithredu unrhyw newidiadau ac argymhellion.

## Rheoli y Risgiau

13. Pan ymddiswyddodd Syr George Reid fel Cadeirydd, codwyd pryderon na fyddai unrhyw un â phrofiad 'gwleidyddol' ar y Bwrdd, ac y gallai hynny arwain at ddiffyg dealltwriaeth ac empathi ar gyfer rôl Aelod Cynulliad. Roedd y Bwrdd yn pryderu y gallai hyn effeithio ar ei berthynas â grŵp allweddol o randdeiliaid yn y pen draw. Cafodd y risg ei reoli drwy drefnu bod Cadeirydd y Bwrdd, Sandy Blair, Aelodau'r Cynulliad a'r grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a'u staff cymorth yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn aml.

14. Er bod rhai unigolion yn anfodlon ar rai o benderfyniadau'r Bwrdd, prin a fu'r feirniadaeth o rôl y Bwrdd, neu ei hygrededd fel corff gwneud penderfyniadau annibynnol.

15. Dylai'r Bwrdd newydd barhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn gyson ag Aelodau'r Cynulliad i egluro ei syniadau a chael adborth gan y rhai yr effeithir yn fwyaf uniongyrchol arnynt.

## Hunanwerthuso

16. Un o ganlyniadau adolygiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd ei hun oedd sylweddoli y gallai'r Bwrdd fod wedi cael budd yn gynt o'r fath hunanwerthuso. Dylai'r Bwrdd newydd ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

## Dulliau o weithio

17. Er bod y Mesur yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan y Bwrdd, a'i ddulliau o weithio, mae'r Bwrdd wedi ystyried a oes angen siarter o ryw fath er mwyn cofnodi rhai o gonfensiynau'r Bwrdd sy'n dod i'r amlwg. Mae ymddangos y byddai hynny'n gam cadarnhaol o ran llywodraethu da.

18. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth i'r Bwrdd ymgodymu â'r adolygiad manwl o'r Penderfyniad, cafwyd cyfarfodydd hirach ac amlach. Yn anochel hefyd, bu'n rhaid i'r Bwrdd fynd i gryn fanylder o ran y trefniadau gweithredol. Ni ddylai llwyth gwaith y Bwrdd newydd fod mor feichus, o leiaf ar y dechrau. Dylai'r Bwrdd newydd ystyried ei raglen waith yn fanwl ac, yn enwedig, sicrhau ei fod yn cydbwyso'r angen i feddwl yn strategol â'r adolygiad gweithredol a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud.

## Cyfnod Sefydlu

19. Nododd y Bwrdd ei bod yn her i aelodau nad oes ganddynt brofiad blaenorol o'r Cynulliad ddysgu sut y mae'n gweithio, sut y mae'n wahanol i sectorau a chyrff seneddol eraill, a pham.

20. Nododd aelodau'r Bwrdd y rôl bwysig a chwaraeodd Syr George Reid wrth rannu ei wybodaeth a'i brofiad o San Steffan a Holyrood yn ystod blwyddyn gyntaf y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn argymell y dylai Aelodau newydd gael rhaglen sefydlu mwy

strwythuredig er mwyn dysgu gwybodaeth o'r fath, gan gynnwys ymweld â swyddfeydd etholaethol.

21. Roedd Sandy Blair mewn sefyllfa dda i ddatblygu perthnasau adeiladol ag Aelodau a staff cymorth, gan fod y rhan fwyaf o'r Aelodau eisoes yn gyfarwydd ag ef.  Dylai'r Bwrdd newydd ystyried y ffordd orau o sicrhau bod modd iddo glywed pryderon y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol.

# Gwersi a ddysgwyd: ymgysylltu

## Ymgysylltu â'r cyhoedd

22. Yn ei waith, yn enwedig yn sgil ei adolygiad ar gyfer y Pumed Cynulliad mae'r Bwrdd wedi ei siomi â'r lefel o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n hanfodol gwella dealltwriaeth y cyhoedd a'u cynnwys yn fwy yn ei waith, a bydd hynny'n her fawr i'r Bwrdd newydd.

23. Er bod y Bwrdd yn rhagweithiol wrth hyrwyddo ei ymgynghoriadau, yn enwedig yr ymgynghoriad ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad, cafodd adborth gan y cyhoedd nad oeddent yn ymwybodol o'r cynigion na sut i ymateb.

24. Un o'r argymhellion yn sgil adolygiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd yw y dylai'r Bwrdd newydd ystyried yn gynnar sut y gall ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd ym mhob rhan o'i gylch gwaith, ac yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau ynghylch y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn argymell ystyried yn gynnar y syniad o lunio strategaeth gyfathrebu ar gyfer y Pumed Cynulliad ac y dylai'r Bwrdd newydd ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau ymgynghori eraill yn fwy effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth.

25. Bydd hefyd angen i'r Bwrdd newydd ystyried sut y gall rhyngweithio'n well a'r gymdeithas ddinesig, a oedd yn siomedig o dawel yn ystod llawer o ymgynghoriadau'r Bwrdd.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol allweddol

26. Mae'r Bwrdd o'r farn bod rhywfaint o'r gwaith a wnaed ganddo ar ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cynnig ffordd effeithiol o sicrhau bod lleisiau'r rhai y mae penderfyniadau'r Bwrdd yn effeithio fwyaf arnynt yn cael eu clywed. Mae'r Bwrdd yn argymell y dylai hyn barhau.

27. Mae'r Bwrdd wedi nodi bod cyngor y tîm Cymorth Busnes i Aelodau a chael cydweithio'n agos â hwy wedi rhoi cryfder a budd iddo. Mae'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn ymdrin ag Aelodau o ddydd i ddydd, gan roi cyngor ar ystod o faterion, ac mae llawer ohonynt yn cael eu pennu gan y Bwrdd.

28. Cynhaliodd y Cadeirydd sesiynau galw heibio rheolaidd gydag Aelodau'r Cynulliad. Ymgynghorodd y Bwrdd â grŵp cynrychiolwyr Aelodau'r Cynulliad a grŵp cynrychiolwyr staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Gwahoddwyd Arweinwyr y Pleidiau i un o gyfarfodydd y Bwrdd Taliadau. Cyfarfu aelodau'r Bwrdd yn anffurfiol â swydd-ddeiliaid a chyn-Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys y rhai sy'n Aelodau o Senedd y DU ar hyn o bryd, neu sydd wedi bod yn y gorffennol.

29. Nododd y Bwrdd fod llawer o'r mentrau hyn yn cael eu harwain gan y Cadeirydd, ac y gallai fod yn fanteisiol pe bai grŵp ehangach o aelodau'n cymryd rhan yn amlach.

30. Mae'r Bwrdd wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gael perthynas â'r staff drwy fewnbwn grŵp cynrychiolwyr y staff cymorth. Er bod y grŵp wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr ar ystod o faterion, mae'r Bwrdd yn ansicr o hyd i ba raddau y gall corff sy'n cynnwys unigolion sy'n gweithio'n bennaf yn y Senedd adlewyrchu barn staff ym mhob rhan o Gymru. Dylai'r Bwrdd newydd ystyried sut y gall gofnodi barn staff cymorth eraill os nad yw'n gwneud hynny drwy'r grŵp cynrychiolwyr.

31. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r cyhoedd ar bob agwedd ar yr adolygiad. Lluniwyd cynlluniau ar gyfer ymdrin â'r cyfryngau ar y cyd â thîm Cyswllt â'r Cyfryngau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer yr ymgynghoriadau ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad a'r Penderfyniad drafft ar gyfer y Pumed Cynulliad.

32. Er i'r lansiadau hyn ar gyfer y cyfryngau weithio'n dda, mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'i weithgareddau a'i benderfyniadau, ac o ran y ffordd y mae'n cofnodi barn y cyhoedd ar ei drafodaethau.

33. Cafodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod adeiladol gyda'r Llywydd a'r Comisiynwyr ym mis Tachwedd 2014. Er bod eu cylchoedd gwaith yn wahanol iawn, roedd pawb yn cytuno bod tipyn o orgyffwrdd o ran eu diddordebau a'u pryderon, a byddai'n fanteisiol cynnal cyfarfodydd achlysurol yn y dyfodol.

34. Mae'r Bwrdd yn ystyriol o'r ffaith y bydd y gyfundrefn ariannol a'r canllawiau a roddir ar waith ganddo yn berthnasol iawn i waith Comisiynydd Safonau'r Cynulliad. Dylid canmol y Cynulliad am ei gofnod o ran materion yn ymwneud â safonau yn gyffredinol, nid dim ond materion ariannol. Er mwyn helpu i ddatblygu'r diwylliant cadarnhaol hwn, dylai'r Bwrdd newydd barhau i gydweithio â'r Comisiynydd o bryd i'w gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddau ochr.

35. Mae'r Cadeirydd wedi cadw mewn cysylltiad â Byrddau Taliadau eraill yn y DU, ac wedi cwrdd ag ymwelwyr â'r Senedd o dramor oedd â diddordeb yn y maes hwn. Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai barhau i ddysgu gan sefydliadau eraill a sicrhau ei fod yn ymwybodol o ddatblygiadau ehangach ym maes taliadau gwleidyddol.

# Edrych ymlaen

## Penderfyniadau Gohiriedig

36. Fel rhan o'i waith ar y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, gohiriodd y Bwrdd rai penderfyniadau fel y gellid eu gwneud ar adeg pan fyddai mwy o ddata am y farchnad ar gael. Mae hynny'n golygu bod nifer fach o faterion y bydd angen i'r Bwrdd Taliadau newydd fynd i'r afael â hwy yn y dyddiau cynnar.

37. Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu nifer o feysydd lle gwnaed newidiadau sylweddol i'r Penderfyniad.

## Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2016-17

38. Bydd angen i'r Bwrdd wneud penderfyniad ac ymgynghori ar hyn ym mis Ionawr/Chwefror 2016. Bydd hefyd angen i'r Bwrdd gadarnhau a fydd angen iddo fabwysiadu'r un system uwchraddio ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ag a gyflwynwyd i'r Aelodau (mae'r Bwrdd wedi nodi yn y gorffennol ei fod yn bwriadu gwneud hynny, heb wneud ymrwymiad cadarn).

39. Cafodd y Bwrdd presennol fudd o dreulio amser gydag Aelodau a staff cymorth ar ddechrau eu cyfnod gweithredu, er mwyn deall yr hyn y maent yn ei wneud yn well. Mae'r Bwrdd yn argymell y dylai unrhyw aelodau newydd o'r Bwrdd wneud yr un fath.

## Cyfraddau costau swyddfa a lwfansau preswyl

40. Er bod y Bwrdd wedi cytuno ar y strwythur ar gyfer costau swyddfa a lwfansau preswyl, gohiriwyd y penderfyniad ynghylch y symiau penodol a fydd ar gael. Bydd hynny'n fater i'r Bwrdd newydd gytuno arno ddechrau 2016.

## Cymorth Grŵp

41. Mae'r Bwrdd wedi adolygu a diwygio'r ffordd y caiff grwpiau'r pleidiau eu hariannu yn y Pumed Cynulliad. Argymhellodd y Bwrdd y dylid adolygu uchafswm y cyllid cyffredinol sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol yn unol â'r penderfyniadau ar gyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad bob blwyddyn.

## Camau gweithredu cydraddoldeb

42. Bydd angen i’r Bwrdd fonitro hynt y materion sy’n codi o’r Asesiad o Effaith y Penderfyniad ar Gydraddoldeb, gan gynnwys casglu data cydraddoldeb.

## Cynllun Pensiwn Aelodau’r Cynulliad

43. Disgwylir i Drysorlys Ei Mawrhydi gymeradwyo'r cynllun pensiwn erbyn mis Medi 2015. Bydd angen i'r Bwrdd newydd fod yn rhan o'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd annibynnol Bwrdd Pensiynau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

## Polisïau a Gweithdrefnau

44. Bydd angen i'r Bwrdd newydd ymateb i'r ymgynghoriad, a gynhaliwyd yn ystod yr haf yn 2015, ar bolisïau, gweithdrefnau a thelerau ac amodau diwygiedig ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

## Materion eraill ar gyfer Bwrdd 2015-20

45. **Cronfa Polisi ac Ymchwil** - Roedd y Bwrdd yn cytuno y dylid ehangu defnydd o'r gronfa polisi ac ymchwil i ganiatáu gwariant ar gyfathrebu lleol. Lluniwyd canllawiau ar ddefnyddio'r gronfa, gyda mewnbwn defnyddiol gan y Comisiynydd Safonau. Mae cyllid o'r fath wedi bod yn ddadleuol yn San Steffan ac felly bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol o sut y caiff ei weithredu'n ymarferol 12-18 mis ar ôl dechrau'r Pumed Cynulliad.

46. **Prentisiaethau** - Mae'r Bwrdd wedi gwahodd Comisiwn y Cynulliad i ystyried sut y byddai'n rhoi cynllun prentisiaethau posibl ar waith. Os cyflwynir y cynllun, bydd y Bwrdd am fonitro cynnydd ac ystyried unrhyw agweddau sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

47. **Cymorth All-leoli** - Mae'r Bwrdd wedi gwahodd Comisiwn y Cynulliad i ystyried a ddylid rhoi unrhyw gymorth all-leoli ar waith ar gyfer cyn-Aelodau. Eto, os cyflwynir cymorth o'r fath, bydd angen i'r Bwrdd ystyried a oes unrhyw oblygiadau ar gyfer ei waith.

DIWEDD